Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Service

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dewis Gofal Plant





# Beth yw Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd?

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn wasanaeth gwybodaeth a chyngor diduedd am ddim i BOB rhiant/gofalwr plant a phobl ifanc, a'r gweithwyr proffesiynol a ddarperir gan eich Awdurdod Lleol sy'n gweithio gyda nhw. Maen nhw'n gallu darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i'ch helpu i ganfod:

- Gofal plant
- Gweithgareddau plant a phobl ifanc
- Sefydliadau Cymorth i Deuluoedd

Gall y gwasanaeth hefyd ddarparu gwybodaeth am:

- Gymorth gyda chostau gofal plant
- Gyrfaoedd ym maes gofal plant
- Hyfforddiant gofal plant

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn fan cychwyn delfrydol os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â chymorth ar gyfer eich teulu. Bydd eich gwasanaeth lleol yn gallu darparu gwybodaeth benodol ar gyfer eich anghenion unigol chi. Cysylltwch â nhw yn uniongyrchol neu ewch i wefan eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol i gael rhagor o wybodaeth.

## Sut i gysylltu â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd?

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ym mhob awdurdod lleol ac mae manylion cyswllt y rhain i gyd ar gael ar dudalennau 12-14.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda darparwyr gofal plant yn eich ardal i roi gwybodaeth gywir a chyfoes i chi am yr hyn y maen nhw'n gallu ei gynnig. Mae'r llyfryn hwn yn eich tywys drwy'r pethau y mae angen ei chi eu hystyried wrth ddewis gofal plant a'r opsiynau sydd ar gael i chi.

# Adrannau:


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Sut mae dewis gwasanaeth gofal plant | 4 |
| 2. | Help gyda chostau gofal plant | 6 |
| 3. | Y mathau o ofal plant | 7 |
| 4. | Safonau Gofynnol Cenedlaethol | 9 |
| 5. | Gofal plant i bawb | 10 |
| 6. | Manylion cyswllt defnyddiol | 11 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG33230
ISBN digidol 978-1-78859-790-6 ISBN argraffu 978-1-78859-791-3

# 1. Sut mae dewis gwasanaeth gofal plant

a) Cysylltwch â chymaint o ddarparwyr gofal plant â phosibl cyn penderfynu ar yr un gorau i chi a'ch plentyn. Hefyd, gofynnwch i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd pa ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – gweler adran 3.

b) Gallai'r cwestiynau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth ystyried beth sy'n bwysig i chi mewn gwasanaeth gofal plant:

- A yw'r gwasanaeth yn groesawgar?
- A yw'r safle'n lân?
- Lle mae yna fan chwarae y tu allan, a yw'n ddiogel?
- A yw'r plant yn ymddangos yn brysur ac yn hapus?
- A yw'r gofal plant ar gael yn ystod oriau addas i'ch anghenion chi?
- A ydynt yn darparu prydau bwyd, byrbrydau, clytiau ac ati?
- Oes yna opsiynau bwyd iach?
- Fydd yna gyfleoedd i'ch plentyn ymarfer a gorffwys?
- Beth yw'r gost?
- A oes lle ar gael i'ch plentyn?

Am ragor o gwestiynau i'w gofyn, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol neu ewch i'w gwefan.

Gweler adran 6 (tudalennau 12-14) i gael manylion cyswllt y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

c) Ar ôl i chi ddod o hyd i wasanaeth gofal plant sydd wrth eich bodd, rhowch gynnig ar gyfnod setlo, gyda rhai ymweliadau byr i chi a'ch plentyn. Bydd hyn yn eich helpu i deimlo'n fwy hyderus a thawel eich meddwl.

# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau dynol plant dan 18 oed. Mae'n cydnabod nid yn unig eu hawliau sylfaenol, ond hefyd yn rhoi hawliau ychwanegol i'w gwarchod rhag niwed fel un o'r grwpiau mewn cymdeithas sydd fwyaf agored i niwed. Mae gan bob un sy'n gofalu am blant neu sy'n gweithio gyda phlant swyddogaeth i'w chwarae i sicrhau hawliau plant a'u cynorthwyo i gyflawni eu potensial fel unigolion. Gyda'i gilydd, mae holl erthyglau CCUHP yn cyfrannu at sicrhau bod plant yn cael eu diogelu, eu meithrin a'u trin â pharch. Mae CCUHP hefyd yn cydnabod ac yn cefnogi swyddogaeth rhieni wrth fagu eu plant.



# 2. Help gyda chostau gofal plant

Gall gofal plant ymddangos yn ddrud, ond wyddech chi y gallai fod gan rai teuluoedd hawl i gael help ariannol? Er enghraifft:

1. Credydau Treth/Credyd Cynhwysol;
2. Gofal plant gyda chymorth cyflogwyr, gan gynnwys cynlluniau talebau/cynllun Gofal Plant Di-dreth;
3. Lleoedd a gynorthwyir yn lleol a chynlluniau help llaw;
4. Addysg gynnar ran-amser am ddim ar gyfer plant 3 a 4 oed;
5. Dechrau'n Deg;
6. Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth neu Cymunedau am Waith os ydych am gymorth i fynd yn ôl i'r gwaith neu hyfforddiant, neu
7. Cymorth ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch a Phellach.
8. Y Cynnig Gofal Plant i Gymru, a fydd yn cael ei brofi mewn rhai awdurdodau lleol penodol o fis Medi 2017.

Gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd roi mwy o fanylion ichi a rhoi gwybodaeth i chi am gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, ac am y Ganolfan Byd Gwaith a rhaglenni lleol eraill.

Am wybodaeth fanylach, darllenwch y daflen:
Cymorth i rieni a help ariannol gyda chostau gofal plant.



# 3. Mathau o ofal plant
## (wedi'u cofrestru a heb eu cofrestru)

Mae'n rhaid i bawb sy'n darparu gofal plant am dâl i blant dan 12 oed am fwy na 2 awr y dydd gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Mae'r adran hon yn rhoi disgrifiad cryno o'r mathau o ddarpariaeth gofal plant, wedi'u cofrestru a heb eu cofrestru, sydd ar gael i chi. I gael mwy o fanylion, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol (manylion cyswllt ar dudalennau 12-14).

## Wedi'u cofrestru

### Gwarchodwyr plant

Darparwyr gofal plant yw gwarchodwyr plant sy'n gweithio yn eu cartrefi eu hunain. Efallai y byddant yn cynnig gofal llawnamser neu ran-amser, gan gynnwys yn y cyfnodau cyn ysgol ac ar ôl ysgol, gofal cofleidiol (gofal plant y mae'r ysgolion yn eu darparu y tu allan i oriau ysgol arferol, megis clybiau brecwast neu ar ôl ysgol), a gofal yn ystod y gwyliau, fin nos, dros nos neu dros y penwythnos.

### Gofal dydd:

Mae darparwyr gofal dydd yn cynnig gofal llawnamser neu ran-amser, cyn ysgol ac ar ôl ysgol, ac yn ystod y gwyliau. Maent yn cynnwys:

- Meithrinfeydd dydd
- Canolfannau plant
- Canolfannau i deuluoedd
- Grwpiau chwarae
- Cylchoedd meithrin
- Clybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol
- Crèches
- Chwarae mynediad agored

### Addysg gynnar ran-amser ar gyfer plant tair a phedair oed:

Mae gan eich plentyn hawl i isafswm o 10 awr o addysg Cyfnod Sylfaen ran-amser o ansawdd da am ddim mewn ysgol, neu leoliad addysg gynnar a gymeradwywyd gan eich awdurdod lleol, yn y tymor yn dilyn eu trydydd penblwydd.

## Heb eu cofrestru

Does dim rhaid cofrestru rhai opsiynau gofal plant gydag AGGCC. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn sesiynau sy'n para llai na 2 awr y dydd neu lle nad yw'r darparwr yn cael tâl am y gofal plant, er bod yna eithriadau pellach. Gall gofal plant heb ei gofrestru hefyd gynnwys:

- gwasanaethau au pair
- sesiynau gwarchod neu ofal gan ffrindiau neu aelodau o'r teulu

Os ydych yn ansicr ac eisiau holi a oes angen cofrestru, cysylltwch ag AGGCC i gael cyngor. Os byddwch yn defnyddio gofal plant nad yw wedi'i gofrestru na'i gymeradwyo, ni fyddwch yn gallu hawlio cymorth ariannol gan lywodraeth y DU lle byddech yn gymwys i wneud hynny fel arall.

### Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Gofal Plant yn y Cartref yng Nghymru:

Gall unrhyw un, heblaw perthynas agos sy'n darparu gofal plant yng nghartref y plentyn, wneud cais i fod yn ddarparwr gofal plant cymeradwy, cyn belled â'u bod yn bodloni'r gofynion canlynol:

- eu bod yn 18 oed neu'n hŷn;
- bod ganddynt gymhwyster perthnasol. I gael rhagor o gyngor, cysylltwch ag AGGCC (www.cssiw.org.uk);
- bod ganddynt dystysgrif cymorth cyntaf perthnasol
- eu bod wedi'u clirio drwy wiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Ffoniwch eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol i gael gwybodaeth am gymeradwyo gweithwyr gofal plant yn eich cartref a sut i gael gafael ar unrhyw gymorth ariannol gan Lywodraeth y DU y gallech fod yn gymwys i'w dderbyn.

Sylwer bod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Gofal Plant yn y Cartref yng Nghymru yn gynllun cymeradwy.

Er nad yw'n cynnwys cofrestru, efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys i hawlio cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU, yn dibynnu ar eich amgylchiadau penodol a meini prawf perthnasol y cynllun.

# 4. Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Mae angen i bob lleoliad sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Dyma'r ddogfen:
http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/publications/160411regchildcarecy.pdf



# 5. Gofal plant i bawb

## Gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich helpu i ddod o hyd i gofal plant yn eich ardal ar gyfer anghenion eich plentyn

## Anghenion unigol

Bydd gan y gwasanaeth wybodaeth hefyd am sut y gallwch gael gafael ar help i dalu eich costau gofal plant. Mae cynlluniau cyfeirio ar draws Cymru yn helpu plant ag anghenion ychwanegol i fynychu grwpiau chwarae/cylchoedd meithrin a mathau eraill o ofal plant gyda phlant eraill o'r un oed.

## Hygyrchedd

Mae'n rhaid i bob darparwr gofal plant fodloni gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2010 ac mae'n rhaid iddyn nhw wneud addasiadau rhesymol i gynnwys plant anabl. Nid ydynt yn cael trin plentyn anabl yn llai ffafriol oherwydd ei anabledd nac unrhyw nam neu gyflwr iechyd. Gallwch ffonio'r Gwasanaeth Cymorth Cynghori ar Gydraddoldeb (EASS) ar 0808 800 0082 i gael cyngor neu wybodaeth.



# 6. Manylion cyswllt defnyddiol

## **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** – manylion cyswllt Awdurdodau Lleol

| | |
|---|---|
| Abertawe | 01792 517222<br>fis@swansea.gov.uk<br>www.abertawe.gov.uk/ggd |
| Blaenau Gwent | 08000 32 33 39 (rhadffôn o linell dir)<br>fis@blaenau-gwent.gov.uk<br>www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/iechyd-lles-a-gofal-cymdeithasol/cefnogaeth-i-blant-a-theuluoedd/gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd/ |
| Bro Morgannwg | 01446 704 704<br>FIS@valeofglamorgan.gov.uk<br>www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/children_and_young_people/Family-Information-Service/Family-Information-Service.aspx |
| Caerdydd | 029 2035 1700<br>fis@cardiff.gov.uk<br>www.cardiff-fis.info/?lang=cy |
| Caerffili | 01443 863232<br>fis@caerphilly.gov.uk<br>www.your.caerphilly.gov.uk/fis |
| Casnewydd | 0800 328 84 83/01633840669<br>family.informationservice@newport.gov.uk<br>www.newport.gov.uk/cy/Care-Support/Children-and-families/Family-Information-Service/Newport-Family-Information-Service.aspx |
| Castell-nedd Port Talbot | 01639 873018<br>fis@npt.gov.uk<br>www.nptfamily.com |

| | |
|---|---|
| Ceredigion | 01545 574187<br>fis@ceredigion.gov.uk<br>www.fis.ceredigion.gov.uk/cy/ |
| Conwy | 01492 577788/577850<br>plant.children@conwy.gov.uk<br>www.conwyfamilyinformation.co.uk/Default.aspx |
| Gwynedd | 01286 675570<br>Anfonwch neges destun am wybodaeth 07920083909<br>Gwynedd-Ni@gwynedd.llyw.cymru<br>www.gwynedd-ni.org.uk |
| Merthyr Tudful | 01685 727400<br>fis@merthyr.gov.uk<br>www.merthyrfis.org/?lang=cy& |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 01656 643643<br>familyinfo@bridgend.gov.uk<br>www.Bridgend.gov.uk/FIS |
| Powys | 01597 827666<br>fis@powys.gov.uk<br>www.powys.gov.uk/cy/fis/gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd/ |
| Rhondda Cynon Taf | 0800 180 4151 am ddim o linellau tir<br>0300 111 4151 am ddim o ffonau symudol<br>fis@rctcbc.gov.uk<br>www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ChildrenandFamilies/ParentandFamilySupport/Financialsupportforfamilies/FamilyInformationService/WhatistheFamilyInformationService.aspx |
| Sir Benfro | 01437 770014<br>fis@pembrokeshire.gov.uk<br>www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd |

| | |
|---|---|
| Sir Ddinbych | 01745815891<br>fis@denbighshire.gov.uk<br>www.denbighshire.gov.uk/cy/preswyliwr/cymunedau-a-byw/gofal-plant-a-rhianta/gofal-plant-a-rhianta.aspx |
| Sir Fynwy | 01633 644527<br>info@monfis.org.uk<br>www.monfis.org.uk |
| Sir Gaerfyrddin | 01267 246555<br>childreninfo@carmarthenshire.gov.uk<br>www.fis.carmarthenshire.gov.uk/cym/intro_c.htm |
| Sir y Fflint | 01352 703500<br>fis@flintshire.gov.uk<br>www.fisflintshire.co.uk |
| Torfaen | Am ddim 0800 0196330<br>fis@torfaen.gov.uk<br>www.torfaenfis.org.uk |
| Wrecsam | Ffôn: 01978 292094<br>fis@wrexham.gov.uk<br>www.wrexham.gov.uk/welsh/community_w/fis/index.htm |
| Ynys Môn | 01248 725888<br>fis@anglesey.gov.uk<br>www.ynysmon.gov.uk/cymuned/plant-a-theuluoedd/gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd?redirect=false |

## Llywodraeth Cymru

http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/familyinformationservices/?skip=1&lang=cy

Gwefan swyddogol Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth genedlaethol ar Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

### Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

www.cssiw.org.uk
Ffôn: 0300 7900 126
E-bost: cssiw@wales.gsi.gov.uk

Gwaith AGGCC yw sicrhau bod gwasanaethau gofal yn bodloni'r safonau y mae gan bobl hawl i'w disgwyl. Mae'n rhan o Lywodraeth Cymru, ac yn gweithredu'n annibynnol.

**Rhestrir isod rai o'r sefydliadau sy'n gallu darparu gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth. I gael rhagor o gysylltiadau, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol.**

### Canolfan Gwasanaethau Anabledd

www.gov.uk/disability-benefits-helpline

### Budd-daliadau Anabledd ac Iechyd yr Adran Gwaith a Phensiynau

Budd-dal di-dreth i bobl anabl y mae angen cymorth arnynt gyda chostau gofal neu symudedd yw Lwfans Byw i'r Anabl. Gallwch hawlio'r Lwfans hwn os ydych o dan 16 oed, neu wedi'ch geni ar ôl 8 Ebrill 1948 ac yn gwneud eich hawliad yr un flwyddyn ag y byddwch yn stopio derbyn Lwfans Byw i'r Anabl.

Lwfans Byw i'r Anabl i Blant –
Ffôn: 0345 712 3456 (Dim ond i blant o dan 16 oed y gellir hawlio Lwfans Byw i'r Anabl – rhaid i unrhyw un dros 16 oed wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol)

Lwfans Byw i'r Anabl i Oedolion –
Ffôn: 0345 605 6055 (Bydd eich Lwfans yn parhau os cawsoch eich geni ar neu cyn 8 Ebrill 1948)

Taliad Annibyniaeth Personol –
Ffôn: 0345 850 3322

Lwfans Gweini –
Ffôn: 0345 605 6055

Canolfan Byd Gwaith
www.gov.uk/contact-jobcentre-plus
Ffôn: 0345 604 4248 (Cymraeg)
0345 604 3719 (Saesneg)

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n darparu gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl o oedran gweithio i symud o fudd-dal i waith, ac yn helpu cyflogwyr i lenwi eu swyddi gweigion.

## Credydau Treth

www.gov.uk/browse/benefits/tax-credits
**Llinell Gymorth Credydau Treth**
**Ffôn: 0345 300 3900**

Dolen i wefan Llywodraeth y DU sy'n egluro credydau treth. Ceir cyfrifiannell arni i'ch helpu i weld faint mae gennych hawl i'w gael.

## Credyd Cynhwysol

www.gov.uk/universal-credit

Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol: 0345 600 0723
Llinell Gymraeg (hawlio): 0800 012 1888
Llinell Gymraeg (hysbysu am newidiadau): 0345 600 3018
Llinell destun: 0345 600 0743

### Cynllun Gofal Plant Di-dreth Llywodraeth y DU

www.gov.uk/government/news/tax-free-childcare-10-things-parents-should-know
https://www.childcarechoices.gov.uk

Dolenni i wefannau Llywodraeth y DU sy'n rhoi manylion y Cynllun Gofal Plant Di-dreth a chymorth arall sydd ar gael i helpu rhieni i dalu am ofal plant. Ceir cyfrifiannell arnynt i'ch helpu i gyfrifo faint sydd ei angen ar eich teulu chi.

### Canolfan Cyngor ar Bopeth

www.citizensadvice.org.uk

Mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn cynnig gwybodaeth a chyngor wyneb yn wyneb, ar y ffôn, drwy e-bost, ac ar-lein. Maent yn delio ag unrhyw faterion, gan gynnwys budd-daliadau, dyledion a thai.

### Cyswllt Teulu Cymru

www.cafamily.org.uk
0808 808 3555

Mae Cyswllt Teulu Cymru yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i deuluoedd plant anabl.

### Mudiad Meithrin

www.meithrin.co.uk
**01970 639639**

Mae Mudiad Meithrin yn ceisio rhoi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa ar brofiadau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)

www.pacey.org.uk
0845 880 1299 (Cymru)

PACEY yw'r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r sefydliad yn pennu safonau sy'n hyrwyddo arferion gorau, ac yn helpu gweithwyr gofal plant proffesiynol i ddarparu gofal a dysgu o safon uchel.

## Y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol

www.ndna.org.uk
01824 707823 (swyddfa Cymru)

NDNA yw'r elusen genedlaethol a'r gymdeithas aelodaeth ar gyfer meithrinfeydd. Mae'n darparu gwybodaeth, cymorth, cyngor ac adnoddau ar gyfer meithrinfeydd er mwyn iddyn nhw allu darparu'r gofal gorau posibl i blant ifanc.

## Clybiau Plant Cymru

www.clybiauplantcymru.org
029 2074 1000

Mae Clybiau Plant Cymru yn hyrwyddo a chefnogi gofal plant fforddiadwy, o ansawdd uchel, y tu allan i'r ysgol.

## Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru

www.walesppa.org
029 2045 1242

Mae Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru'n darparu gwybodaeth, adnoddau a chymorth i rieni a lleoliadau blynyddoedd cynnar i wella datblygiad ac addysg plant.

## Chwarae Cymru

www.playwales.org.uk
029 2048 6050

Hyrwyddo darpariaeth chwarae o ansawdd uchel i bob plentyn, darparu cymorth ar bob agwedd ar waith chwarae gyda staff, datblygu meysydd chwarae, ac addysg a hyfforddiant ar waith chwarae.

## Cyllid Myfyrwyr Cymru

http://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/
0300 200 4050

Mae pob un o 22 awdurdod lleol Cymru wedi trosglwyddo eu cyfrifoldeb dros gyllid myfyrwyr i Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Roedd yr wybodaeth yn gywir pan gyhoeddwyd y llyfryn hwn.